

Annwyl [golygu],

Bydd Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn ceisio newid y rhifau 0845 sydd wedi'u nodi yn eich e-bost i rifau eraill. Rydym yn disgwyl i hyn ddigwydd yn ystod y misoedd nesaf fel rhan o newidiadau eraill a fydd yn cael eu gwneud gan ein darparwr telegyfathrebiadau.

Cofion gorau

Trafnidiaeth Cymru

From: [golygu]
On Behalf Of: Fair Telecoms Campaign
Sent: 06 May 2019 10:43
To: TfW Media Relations <media@tfw.wales>
Subject: Defnydd amhriodol o rif ffôn 0845

A fyddech chi'n gallu cynnig ymateb i'r wybodaeth ganlynol.

Mae **ymgyrch telegyfathrebiadau teg** yn ceisio tynnu sylw'r cyfryngau at achosion bwriadol o dorri canllawiau Llywodraeth y DU – [Canllawiau HMG - Llinellau Ffôn Gwasanaeth Cwsmeriaid - Defnyddio Rhagddodiad Rhifau](#).

Fel arfer, mae'r canllawiau i beidio â defnyddio rhifau 084 ar gyfer cyswllt cyhoeddus â chyrrff cyhoeddus yn cael eu dilyn. Yn aml, rydym yn canfod bod y toriadau yn deillio o wallau y gellir eu cywiro'n gyflym.

Rydym wedi derbyn gwybodaeth bod **0845 120 4676** yn cael ei hysbysebu fel rhif cyswllt, gan gynnwys ffotograff, drwy'r trydariad hwn - <https://twitter.com/NumberGuyUK/status/1124684076236136449>.

Arweiniodd galwad i'r rhif hwn at rywun yn ateb ac yn cadarnhau mai dyma'r rhif cywir ar gyfer **Trafnidiaeth Cymru**.

Codir "Tâl Gwasanaeth" o 2c y funud ar gyfer galwadau i'r rhif yma, ynghyd â'r "Ffi Mynediad" o 58c y funud. Byddai defnyddiwr ffôn symudol (hy, unrhyw un sy'n darllen yr hysbysiad) fel arfer yn talu 57c y funud i ffonio'r rhif yma. Ar hyn o bryd, mae'r "Ffi Mynediad" ar gyfer y pedwar prif ddarparwr ffonau symudol yn 55c y funud.

Ni waeth a yw'r rhif hwn yn cael ei weithredu gan **KeolisAmey**, mae **Trafnidiaeth Cymru** yn gorff cyhoeddus a rhaid iddo dderbyn y prif gyfrifoldeb.

Pa un bynnag sy'n gyfrifol yn uniongyrchol, maent yn torri gofynion Ofcom - [Sut mae Galwadau o'r Deyrnas Unedig yn effeithio ar fusnesau?](#). Mae'r rhain yn mynnu bod yr hysbysiad yn cynnwys y cyngor -

"Mae galwadau'n costio 2c y funud a thâl mynediad eich cwmni ffôn" .

Rydym yn gobeithio clywed y bydd y rhif a roddir yn cael ei newid (o bosib i'r rhif sy'n cael llawer o gyhoeddusrwydd - 0333 3211 202), yn hytrach na newid yr hysbysiad(au) i gydymffurfio â'r rheoliad hwn.

Edrychaf ymlaen at gael ymateb prydlon, yn nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd a'r amserlen berthnasol.

Cofion

[Golygu]